**Cofnodion o Gyfarfod o Gyngor Cymuned Ciliau Aeron a gynhaliwyd ar nos Iau 12fed Rhagfyr 2024 am 7.30 pm yn Neuadd Bentref Ciliau Aeron**

**Yn bresennol:** y Cynghorydd Robert Davies (Cadeirydd), y Cynghorwyr Michelle Davies, Nigel Davies, Helen Evans, Eirlys James-Evans, Arwel Jones, Tina Jones ac Alwen Thomas.
Clerc, Denfer Morgan

**241 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorydd Iwan Thomas ynghyd â'r Cynghorydd Sir Marc Davies am fethu a bod yn bresennol yn y cyfarfod.

**242 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo, fel rhai cywir, cofnodion o'r cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 14eg Tachwedd 2024.

**243 Materion yn Codi**

Gofynwyd i'r Clerc dynnu sylw'r Cyngor Sir unwaith eto pryder y Cyngor fod y tyfiant ar Bont Teglan yn gwanhau'r strwythur.

**244 Materion Cyllidol**

**PENDERFYNWYD** talu'r canlynol:

Y Lleng Brydeinig (Torch Pabi) - £25
*Cyflog y Clerc (Hyd-Tach-Rhag):*
Denfer Morgan - £412.12
CThEF (TWE) - £103.04
(yn cynnwys ôl-daliad i'r 1af Ebrill)

**245 Mynwent Eglwys y Drindod Sanctaidd, Cilcennin**

Derbyniwyd diweddariad gan y Clerc ar y broses o brynu'r tir a nodwyd fod y gwaith cyfreithiol yn mynd yn ei flaen.

**246 Llenwi'r Lle Gwag ar y Cyngor**

Dywedodd y Clerc fod yr hysbysiad cyntaf – yn gwahodd deg etholwr i alw am etholiad – yn barod i'w arddangos ac y byddai adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i gyfarfod mis Ionawr.

**247 Ysgol Ciliau Aeron**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r cyfle a ddarperir gan Gyngor Sir Ceredigion i gyflwyno datganiadau o ddiddordeb yn adeilad Ysgol Ciliau Aeron.

Yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNWYD** hysbysu'r Cyngor Sir, yng nghyd-

destun y gwasanaeth a ddarperir gan y Neuadd Bentref i'r gymuned, bod yn ffafrio gweld yr adeilad yn cael ei ddatblygu ar gyfer gweithdai.

**248 Unrhyw Fater Arall**

Cytunwyd fel a ganlyn:

a) dwyn i sylw'r Cyngor Sir manylion y llwybrau cyhoeddus ble mae coed wedi cwympo yn ystod y storom diweddar
b) ystyried trefnu taith gerdded yn y flwyddyn newydd.

Daeth y cyfarfod i ben am 8:15pm